

## Grŵp Cyswilt Prosiect Adeiladu Newydd Wylfa

### COFNODION

Dydd Iau, Mawrth 10<sup>fed</sup>, 17.30, Canolfan Dysgu a Datblygu Wylfa

### Yn bresennol (yn nhrefn yr wyddor):

Sefydliad	Enw	Cyfenw
Prifysgol Bangor	Trevor	Wyn Jones
Ymddiriedolaeth Bodorgan	Melanie	Wymer
Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig	Timothy	Poole
Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig	Gwynne	Morris Jones
Cwmni Cemaes Cyf	Eric	Torr
Dŵr Cymru (Welsh Water)	Angela	Meadows
Ynys Ynni	Linda	Wyn Jones
Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru	Iwan	Williams
Cyngor Cymunedol Llanbadrig	Anthony	Hughes
Cyngor Cymunedol Llanbadrig	Elfed	Jones
Cyngor Cymunedol Llaneilian	Helen	Woodcock
Cyngor Cymunedol Llanfachraeth	Bleddyn	Rowlands
Cyngor Cymunedol Llanfaethlu	J	Arfon Jones
Cyngor Cymunedol Llannerch- y-Medd	John	Jukes
Aelod Lleol Cynulliad Cenedlaethol Cymru & Dirprwy Brif Weinidog Cymru	Ieuan	Wyn Jones
Magnox	Jan	Milburn
Magnox	Richard	Cowell
Menter Mechell a Carrog Renewables	Jac	Jones
Menter Môn	Judy	Craske
Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr	Will	Edwards
Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol	Richard	Williams

Gwasanaeth Ambiwylans Gogledd Cymru	Keith	Williams
Iechyd Cyhoeddus Cymru	Sarah	Andrews
Cyngor Cymunedol Rhosybol	Dave	J Rushworth
Cyngor Cymunedol Tref Alaw	Trevor	Jones
Cyngor Cymunedol Tref Alaw	Geraint	Owen
UKIP Cymru	Nathan	Gill
Undeb Unite	Trevor	Roberts
Gwasanaeth Ambiwylans Cymru	Rod	Owen
Women's Royal Voluntary Service	Tracey	Woodbine
Cymdeithas Ymddeoledigion Wylfa	Tom	Conway
Cyngor Sir Ynys Môn (Llanbadrig)	William	Thomas Hughes
Cyngor Sir Ynys Môn (Llaneilian)	Aled	Morris Jones
Cyngor Sir Ynys Môn (Llanfaethlu)	Kenneth	Hughes
Cyngor Sir Ynys Môn (Llannerch-y-Medd)	Elwyn	Schofield
Cyngor Sir Ynys Môn (Mechell)	Thomas	H Jones
Y Blaid Lafur, Ynys Môn	Joe	Lock
Ysgol Syr Thomas Jones	Hannah	Peters
Ysgol Syr Thomas Jones	Jean	Jones
Ysgol Uwchradd Bodedern	Irfon	Morris
<b>Aelodau'r Cyhoedd</b>		
	Mark	Thornton
	Michael	Dodds
	G	Thomas
	John	Jones
<b>Ymddiheuriadau</b>		
Cyngor Tref Amlwch	Val	Roberts
Cyngor Sir Ynys Môn (Amlwch Wledig)	Gareth	Winston Roberts
Cyngor Sir Ynys Môn (Arweinydd)	Clive	McGregor

Os nad yw eich enw wedi ei gynnwys ar y rhestr hon neu os yw wedi ei gofnodi'n anghywir, cysylltwch â ni ar 0800 954 9516 neu [wylfaenquiries@horizonnuclearpower](mailto:wylfaenquiries@horizonnuclearpower)

## 1. Croeso

- Agorodd Eiliw Ellis-Davies (EED), hwylusydd Pŵer Niwclear Horizon (Horizon), y cyfarfod a diolch i'r aelodau am fynychu.

## 2. Adolygiad a thrafodaeth o adborth o'r gweithdy GCP a chytuno ar Gylch Gorchwyl y GCP

- Cyflwynodd Pennaeth Cyfathrebu Horizon, Leon Flexman (LF), y Cylch Gorchwyl Drafft i aelodau, gan egluro ei fod wedi ei greu gan y rhai hynny a fynychodd y gweithdy GCP a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr.
- Eglurodd LF eu bod wedi cysylltu â 10 sefydliad pellach yn cynrychioli pobl iau mewn ymateb uniongyrchol i'r adborth a dderbyniwyd yn ystod y gweithdy, ac wedi estyn gwahoddiad iddynt fynychu. O'r rhain, roedd 6 sefydliad wedi derbyn y gwahoddiad ac yn bresennol.
- Mewn ymateb i'r Cylch Gorchwyl Drafft, gofynnodd Aled Morris Jones (AMJ) i'r system bleidleisio gael ei hail ystyried er mwyn cydnabod y ffaith y byddai gan rai sefydliadau (fel y Cyngor Sir) nifer o aelodau'n bresennol na fyddent efallai'n cytuno ym mhob achos. Awgrymodd hefyd bod Cylch Gorchwyl y GCP yn adlewyrchu rhai'r Grŵp Rhanddeiliaid Safle.
- Argymhellodd AMJ bod gwefan ar wahân yn cael ei sefydlu ar gyfer cynnwys sy'n berthnasol i'r GCP.
- Gofynnodd Mark Thornton (MT) am gadarnhad ynglŷn â hawliau pleidleisio i aelodau'r cyhoedd.
- Dywedodd Tom Conway (TC) ei bod yn hanfodol bod aelodau'r cyhoedd yn cael siarad mewn cyfarfodydd GCP a gofynnodd i EED drefnu bod aelodau'r cyhoedd yn codi llaw i ddangos faint ohonynt oedd yn bresennol. Cododd saith o bobl eu dwylo.
- Amlinellodd LF y gwahanol ffyrdd y gallai aelodau'r cyhoedd ddarganfod mwy o wybodaeth a holi cwestiynau am y prosiect. Mae'r rhain yn cynnwys sesiynau galw heibio misol ar draws Ynys Môn ar y trydydd dydd Llun o bob mis, rhif rhadffôn a chyfeiriad e-bost ar gyfer y prosiect. Bydd unrhyw ymholiadau a fydd yn cael eu cyfeirio at Horizon drwy'r sianeli hyn yn derbyn ymateb gan y tîm prosiect bob tro.
- Gofynnodd aelod o'r GCP (heb ei enwi) a ellid dosbarthu rhestr o'r sefydliadau a wahoddwyd i fod yn aelodau o'r GCP i'r holl aelodau. Cadarnhaodd LF y byddai rhestr lawn yn cael ei dosbarthu.

- Gofynnodd aelod o'r GCP (heb ei enwi) a ddylai'r grŵp gynnwys mwy o aelodau o ardal ehangach o ogledd Cymru. Atebodd Alan Smith (AS), Pennaeth Datblygiad Safle Horizon, na ddylai'r GCP fod yn siop gaeedig a bod croeso i sefydliadau newydd ymaelodi.

### **3. Enwebu Cadeirydd ac Is-gadeirydd y GCP**

- Gofynnodd Joe Lock (JL) am gadarnhad y byddai ethol cadeirydd/is-gadeirydd yn cael ei ohirio'n dilyn y sylwadau ar bleidleisio. Cadarnhaodd LF na fyddai'r blaidlais yn digwydd nes bod y broses bleidleisio wedi ei egluro'n iawn.
- Gofynnodd Gwynne Morris Jones (GMJ) a oedd y newidiadau hwyr i'r enwebiadau'n golygu mai dim ond un person oedd yn sefyll ar gyfer safle'r is-gadeirydd. Dywedodd EED bod Jack Jones ac Aled Morris Jones ill dau wedi eu henwebu ar gyfer y safle.
- Gohiriwyd y bleidlais.

### **4. Y diweddaraf ar y safle a'r prosiect**

- Amlinellodd AS ddatblygiadau allweddol y prosiect yn ystod 2010 a'r blaenoriaethau ac amserlenni ar gyfer 2011, yn cadarnhau bod cam cyntaf yr ymgynghoriad cyhoeddus i fod i ddigwydd yn y gaeaf gydag ail gam yr ymgynghoriad i ddigwydd yn ystod 2012.
- Cadarnhaodd LF y byddai'r broses ymgynghori cyhoeddus oedd ar ddod yn rhoi cyfle i gael yr hawl i wedi cynlluniau mwy manwl yn ymwneud a'r cynnig yn cynnwys lluniau o sut allai gorsaf bŵer niwclear newydd edrych.
- Gofynnodd TC am eglurhad o'r acronym SoCC. Cadarnhaodd AS ei fod yn golygu Statement of Community Consultation neu Ddatganiad o Ymgynghoriad Cymunedol a'i fod yn ddatganiad cyhoeddus a wnaed gan Horizon am y modd y byddai'n ymgynghori gyda'r cyhoedd ynglŷn â'i gynigion. Mae hyn yn ofynnol gan y CCS (Comisiwn Cynllunio Seilwaith) - y corff annibynnol sy'n ymchwilio ceisiadau am brosiectau seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol. Gofynnodd TC a allai'r CCS gyfathrebu'n fwy effeithiol ar y broses a fyddai'n cael ei dilyn.
- Gofynnodd GMJ am eglurhad o'r sesiynau galw heibio misol a amlinellwyd yn ystod y cyflwyniad. Eglurodd AS eu bod yn sesiynau misol sy'n cael eu cynnal mewn lleoliadau ar draws Ynys Môn ble gall aelodau'r cyhoedd gwrdd ag aelodau o dîm Horizon a'u holi nhw ynglŷn â'r prosiect.
- Gofynnodd Melanie Wymer (MW) pa mor agos mae Horizon yn gweithio gyda'r Grid Cenedlaethol. Dywedodd AS bod ganddynt berthynas weithio agos ond bod y cyswllt i'r grid yn brosiect ar wahân ac y byddai'n destun proses ymgynghoriad cyhoeddus ei hun.

- Gofynnodd MW a fyddai gwybodaeth yn ymwneud ag ymgynghoriad y Grid Cenedlaethol ar gael i'r cyhoedd cyn ymgynghoriad Horizon gan fod y ddau brosiect wedi eu cysylltu mor agos. Dywedodd AS ei fod yn gobeithio y byddai hynny'n digwydd.
- Ailadroddodd GMJ bwysigrwydd mater y cyswllt i'r grid a gofynnodd i Horizon gefnogi cyswllt gwely'r môr. Ailadroddodd AS y byddai'r Grid Cenedlaethol yn ymgymryd â'i broses ymgynghori ei hun a fyddai'n ymchwilio'r holl ddewisiadau.
- Gofynnodd MW a ellid gwahodd y Grid Cenedlaethol i gyflwyno amlinelliad o'i gynlluniau i'r GCP. Cytunwyd y dylid ystyried hyn ac y byddai'r Grid Cenedlaethol yn cael gwahoddiad i siarad mewn cyfarfod yn y dyfodol.
- Gofynnodd Ieuan Wyn Jones (IWJ) sut y gallai busnesau a chyflenwyr ddarganfod a dilyn cyfleoedd yn gysylltiedig gyda'r prosiect. Mae'n bwysig bod busnesau lleol yn cael cymorth i geisio am y cytundebau iawn.
- Dywedodd Amanda MacMillan (AM), Arweinydd Datblygiad Cadwyn Gyflenwi Horizon, bod y broses eisoes wedi dechrau a bod polisiâu a gweithdrefnau eisoes yn cael eu paratoi i sicrhau bod busnesau ar Ynys Môn yn barod i fanteisio ar y cyfleoedd.
- Cadarnhaodd AM fod busnesau yn cael gwahoddiad i gael eu cynnwys mewn cyfeirlyfr fel y gall Horizon gysylltu gyda nhw'n rheolaidd. Bydd AM hefyd yn mynychu'r sesiynau galw heibio misol i roi cyngor i fusnesau sy'n mynychu.
- Ychwanegodd AS bod mapio'r gadwyn gyflenwi'n cynnwys y gronfa ddata cadwyn gyflenwi oedd eisoes mewn bodolaeth i Magnox.
- Gofynnodd TC i Horizon egluro a fyddai'n rhaid i gontractau gwerth mwy na £250,000 gael eu tendro ar draws yr UE. Awgrymodd AM efallai mai dim ond i gontractau sector cyhoeddus y byddai hyn yn berthnasol ond ymrwymodd i geisio ateb pendant ac ymateb yn y cyfarfod nesaf.
- **Cynigir bod cyfarfod nesaf y GCP yn digwydd ar yr un diwrnod a chyfarfod nesaf Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa - sydd wedi ei drefnu ar gyfer dydd Iau, 2<sup>il</sup> Mehefin.**

*Am fwy o wybodaeth gyffredinol ynglŷn â'r prosiect neu i holi unrhyw gwestiynau, cysylltwch â ni ar 0800 954 9516 neu [wylfaenquiries@horizonnuclearpower.com](mailto:wylfaenquiries@horizonnuclearpower.com) ac ewch i [www.horizonnuclearpower.com](http://www.horizonnuclearpower.com)*